# Cymru, Ewrop a'r Byd

Fframwaith ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed yng Nghymru



**Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**

**Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Cymru, Ewrop a'r Byd

## Fframwaith ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed yng Nghymru

**Cynulleidfa**

Athrawon, penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru; colegau a darparwyr dysgu eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru; awdurdodau lleol; darparwyr hyfforddiant cychwynnol i athrawon; undebau athrawon a chyrff sy'n cynrychioli ysgolion; awdurdodau esgobaethol eglwysi; cyrff cenedlaethol yng Nghymru sydd â diddordeb mewn addysg.

**Trosolwg**

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno canllaw Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ddarparu addysg ynglŷn â Chymru, Ewrop a'r Byd i ddysgwyr 14 i 19 oed yng Nghymru. Fe'i cyhoeddir yn unol â'r pwerau a nodir yn Adran 108 Deddf Addysg 2002 a roddwyd i Weinidogion Cymru. Mae Gweinidogion Cymru yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Camau i'w cymryd**

O 1 Awst 2009 ymlaen, dylai athrawon, penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, colegau a darparwyr dysgu eraill seilio eu darpariaeth ar gyfer Cymru, Ewrop a'r Byd ar y ddogfen hon.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0800 083 6003
e-bost: C&A3-14.C&A3-14@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**

Ar gael drwy gysylltu:
Ffôn: 0870 242 3206 (cyfrwng Cymraeg)
0845 603 1108 (cyfrwng Saesneg)
Ffacs: 01767 375920
e-bost: dcells1@prolog.uk.com

Neu drwy ymweld â gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru
www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

**Dogfennau cysylltiedig**

*Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang: Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion*; *Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru*; *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru*; *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: Canllawiau atodol* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008)

75% wedi'i ailgylchu recycled
Cyf: CAD/CM/0090
ISBN: 978 0 7504 5244 1
A-EAC-02-01-qA788127/1
© Hawlfraint y Goron Medi 2009

# Cynnwys


**Cyflwyniad** 2

**Fframwaith Cymru, Ewrop a'r Byd** 3

- Yr elfen wleidyddol 4
- Yr elfen gymdeithasol 6
- Yr elfen economaidd 8
- Yr elfen ddiwylliannol 10

**Mynd i'r afael â'r fframwaith** 12

**Atodiadau**

1. Cwestiynau cyffredin 14
2. Cipluniau a mannau cychwyn 18
3. Sgiliau ar draws y cwricwlwm 32
4. Cysylltiadau ar draws y cwricwlwm 36
5. Hunanwerthuso 42
6. Enghreifftiau o wefannau defnyddiol 46

**Cydnabyddiaethau** 50

# Cyflwyniad

**'…ein nod yw cael diwylliant cyfoethog ac amrywiol, sy'n hyrwyddo Cymru fel cenedl ddwyieithog ac amlddiwylliannol.'**

*Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007)

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r fframwaith ar gyfer darparu addysg ynglŷn â Chymru, Ewrop a'r Byd (CEB) yn ogystal â chanllaw ar sut y gellir bodloni'r gofynion yn ymarferol. Mae CEB yn rhan o ofynion y Craidd Dysgu, a Llwybrau Dysgu 14–19.

## Diben CEB

Nod CEB yw cynorthwyo dysgwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o fywyd yng Nghymru ac o sefyllfa Cymru yng nghyd-destun y DU, Ewrop a gweddill y Byd.

## Cyfrifoldebau pob darparwr dysgu

Mae Llwybrau Dysgu 14–19 yn sicrhau bod elfen Gymreig yn ganolog i'w Craidd Dysgu. Mae gofyniad sylfaenol y dylai pob person ifanc 14 i 16 oed ddysgu am CEB fel rhan o'r gofynion diwygiedig ar gyfer Cyfnod Allweddol 4, gan ychwanegu at yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu trwy'r Cwricwlwm Cymreig yn ystod Cyfnod Allweddol 3.

Dylai **pob person ifanc 14 i 16 oed ddatblygu a defnyddio** eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o CEB yn y pynciau maen nhw'n eu hastudio a thrwy brofiadau a gweithgareddau eraill.

Dylai **pob dysgwr ôl-16** gael cyfleoedd i **ehangu** eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o CEB **fel ychwanegiad**.


## Cymwysterau ar gyfer achredu CEB

Nid yw'n ofynnol i ddysgwyr gwblhau achrediad. Fodd bynnag, mae CEB yn elfen o dystysgrif graidd Bagloriaeth Cymru, ac felly mae'n ofyniad ar gyfer y rhai sy'n dilyn y cymhwyster ar bob lefel. Mae'r elfen yn cynnwys 60 awr o amser dysgu dan arweiniad sy'n cynnwys, yn nodweddiadol, ymweliadau, sesiynau ymarferol, siaradwyr gwadd a gweithgareddau eraill, yn ogystal ag 20 awr ar gyfer Modiwl Iaith. Mae'n ofynnol i'r myfyrwyr gadw cofnod/dyddiadur o'u gweithgareddau a'u profiadau sy'n gysylltiedig â CEB. Cymedrolir sampl o'r dyddiaduron/cofnodion yn allanol.

# Fframwaith Cymru, Ewrop a'r Byd

Mae'r fframwaith CEB yn nodi'r hyn mae gan ddysgwyr rhwng 14 a 19 oed yr hawl i gael profiad ohono.

Mae'r fframwaith wedi'i rannu'n bedwar pennawd neu elfen:




Nid yw'r elfennau hyn yn feysydd astudio sy'n annibynnol ar ei gilydd y dylid rhoi cynnig arnyn nhw ar wahân, ac nid oes angen eu gosod mewn unrhyw drefn neu hierarchaeth benodol ychwaith. Mae'r elfennau'n cynrychioli ffyrdd o ystyried ein profiad o fyw yng Nghymru fel rhan o Ewrop a'r byd.

# Yr elfen wleidyddol

Dylai CEB ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn dadleuon am faterion gwleidyddol lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys sut maen nhw'n effeithio ar bobl yng Nghymru.

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ystyried amrywiaeth o safbwyntiau a dadleuon gwleidyddol. Bydd y broses hon yn eu galluogi i sylweddoli sut y gall penderfyniadau gwleidyddol effeithio ar bobl a rhoi cyfle iddyn nhw ystyried cwestiynau ynglŷn â dibynadwyedd a rhagfarn, yng Nghymru a'r tu hwnt.

## Enghreifftiau o gyd-destunau/gweithgareddau addas

- Ymgyrchoedd ar faterion lleol, e.e. *iechyd, addysg a gwasanaethau i ieuenctid*.
- Sesiynau grŵp gyda gwleidyddion o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd y DU neu lywodraeth leol.
- Trafod gyda grwpiau gweithredu lleol.
- Cyfarfodydd gydag eiriolwyr ar ran grwpiau pwyso sydd ag elfen ryngwladol a lleol, e.e. *Oxfam, Amnest Rhyngwladol, Greenpeace, Cyfeillion y Ddaear a Chymorth Cristnogol*.
- Cyfarfodydd gyda llywodraethwyr ysgol a choleg.
- Cynghorau blwyddyn/cynghorau ysgol/Fforwm Ieuenctid/Draig Ffynci.
- Cynrychiolaeth myfyrwyr/hyfforddeion ar faterion yn ymwneud â'r coleg/gweithle.
- Cymryd rhan mewn grwpiau ffocws.



- Gweithdai gyda sefydliadau sy'n hybu dinasyddiaeth weithgar, e.e. *CEWC-Cymru (Cyngor Addysg mewn Dinasyddiaeth Byd – Cymru)*.
- Ffug etholiadau i gynghorau ysgol neu goleg.
- Ffug ddadleuon Cynulliad Cenedlaethol Cymru/seneddol.
- Trafod materion cyfredol a phynciol.
- Ymweld â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

- Astudio taflenni gwleidyddol/maniffestos gwahanol bleidiau gwleidyddol yn y DU, a ledled Ewrop a'r byd.
- Astudio'r ymdriniaeth mewn papurau newydd/ ar y teledu/radio/rhyngrwyd.



**'Byddwn yn mynd ati'n fwy strategol i roi Cymru ar fap y byd, gan ddod â mwy o undod i amryfal weithgareddau a chynrychiolaeth Llywodraeth y Cynulliad dros y byd . . . '**

*Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru*
(Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007)

# Yr elfen gymdeithasol

Dylai CEB ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr ymchwilio i faterion ac ymgysylltu â sefydliadau sy'n gweithredu i wella bywydau pobl a chymunedau yma yng Nghymru ac ar draws y byd.

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr werthfawrogi amrywiaeth bywydau pobl, herio stereoteipiau, cydnabod manteision a heriau byw mewn cymunedau amliaith ac aml-ffydd, a thrafod materion sy'n gysylltiedig â newid cymdeithasol.

## Enghreifftiau o gyd-destunau/gweithgareddau addas

- Sesiynau cwestiwn/ateb gyda phobl sy'n cyflawni swyddogaethau penodol mewn cymdeithas, *e.e. nyrsys, meddygon, gweithwyr cymdeithasol a heddlu cymunedol*.
- Trafod/gweithredu gydag elusennau a grwpiau cymunedol lleol i gefnogi anghenion lleol a rhyngwladol.



© Age Concern Cymru and Help the Aged in Wales

- Archwilio tybiaethau pobl ynglŷn â grwpiau sy'n agored i niwed mewn cydweithrediad â sefydliadau, *e.e. asiantaethau cymorth cyffuriau, llochesi i fenywod, Mind Cymru, Scope, ChildLine, Age Concern Cymru and Help the Aged in Wales, a Shelter Cymru*.
- Cyflwyniadau/arddangosiadau i grwpiau blwyddyn eraill ar faterion cymdeithasol.
- Cymryd rhan mewn cymorth gan gymheiriaid.
- Cyfarfodydd gydag amrywiaeth o grwpiau ffydd cymunedol.
- Cysylltiadau gyda phartneriaid mewn gwledydd eraill, *e.e. Dolen Cymru Lesotho*.
- Cynnal arolwg o brosiectau menter gymdeithasol yn yr ardal leol i asesu eu hamcanion a'u heffaith yn y gymuned.
- Gwerthuso ymgyrchoedd ymwybyddiaeth o iechyd, yn enwedig pan fo cynulleidfa darged yr ymgyrchoedd yn cynnwys pobl ifanc.

- Astudio materion a deddfwriaeth iechyd a diogelwch mewn diwydiant/gweithle a ledled Ewrop.
- Adolygu data ystadegol am iechyd/ffordd o fyw yng Nghymru a chenhedloedd eraill.
- Ymchwilio i sut y cynrychiolir yr ardal lle maen nhw'n byw gan y cyfryngau.

**'Rydym yn ymhyfrydu yn y ffaith fod Cymru yn gymuned o ddiwylliannau amrywiol . . . yn dathlu ein hamryfal draddodiadau . . . ac yn tynnu pobl o bob cefndir at ei gilydd.'**

*Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru*
(Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007)

# Yr elfen economaidd

Dylai CEB ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr ymgysylltu â rhaglenni a sefydliadau sy'n hyrwyddo twf economaidd cyfrifol yng Nghymru a gwerthfawrogi sut mae cyfoeth yn cael ei greu.

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ganfod sut mae'r economi yn newid, ein rhyng-ddibyniaeth ar genhedloedd eraill a'n cyfrifoldebau fel dinasyddion byd-eang i fyw mewn ffyrdd cynaliadwy.

## Enghreifftiau o gyd-destunau/gweithgareddau addas

- Gweithgareddau menter tîm – gall y rhain fod â chysylltiad lleol, cenedlaethol neu ryngwladol.
- Trafod/gweithredu gyda grwpiau Masnach deg lleol.
- Cyfarfodydd gydag undebau credyd a Chanolfannau Cyngor ar Bopeth lleol – pwy ydyn nhw a beth maen nhw'n ei wneud.
- Sesiynau cwestiwn/ateb gyda phobl fusnes/entrepreneuriaid lleol a thrafodaethau gyda phobl hunangyflogedig am y cyfleoedd a'r heriau sy'n gysylltiedig ag ennill bywoliaeth yn y modd hwn.
- Ystyried materion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth.
- Cyfarfodydd gydag undebwyr llafur am eu swyddogaeth mewn datblygiad economaidd.
- Ystyried effeithiau newid economaidd mewn ardal yng Nghymru ac ardal mewn gwlad arall.
- Cynlluniau ar gyfer bod yn ysgol/coleg/cwmni cynaliadwy.
- Cysylltiadau rhwng cwmnïau lleol a chymheiriaid/partneriaid rhyngwladol.
- Astudio materion yn ymwneud â chredyd a dyled bersonol yng Nghymru.
- Prosiectau ailgylchu.
- Archwilio twristiaeth a'i heffeithiau cadarnhaol/negyddol.
- Sut mae arian o'r Llywodraeth ac arian o Ewrop yn effeithio ar gymunedau lleol.
- Gwneud busnesau lleol yn fwy 'gwyrdd' er mwyn ennill dyfarniad y Ddraig Werdd.
- Archwilio swyddogaeth technoleg amgen mewn datblygiad cynaliadwy.

- Canfod gwybodaeth am gydweithfeydd bwyd lleol a pha mor effeithlon ydyn nhw.
- Archwilio 'taith bwyd' o gynhyrchwyr bwyd i archfarchnadoedd.



**'Byddwn yn gweithio'n ddyfal i sicrhau bod Cymru yn genedl masnachu rhyngwladol gref ac yn bartner gwerthfawr mewn perthnasau rhyngwladol.'**

*Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru*
(Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007)

# Yr elfen ddiwylliannol

Dylai CEB ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol a/neu chwaraeon sydd ag elfen Gymreig a rhyngwladol.

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr gael profiad o wneud gweithgareddau sy'n cynyddu eu hymdeimlad o hunaniaeth a threftadaeth, gan gynnwys amrywiaeth o gyd-destunau, cyfryngau a chwaraeon.

## Enghreifftiau o gyd-destunau/gweithgareddau addas

- Ymweliadau cyfnewid – cael profiad personol o ddiwylliannau eraill.
- Eisteddfodau.
- Ymweliadau â chyngherddau, amgueddfeydd, orielau celf, canolfannau treftadaeth, theatrau, canolfannau cyfryngau a gwyliau arbennig.
- Gweithio gyda grwpiau ieuenctid sy'n ymwneud â gweithgareddau diwylliannol, *e.e. mudiad yr Urdd a chynllun Gwobrau Dug Caeredin*.
- Ymweliadau gan benseiri, gwyddonwyr, meddylwyr a chrefftwyr.
- Gweithdai ffotograffiaeth.
- Awduron/beirdd/arlunwyr preswyl.
- Ymweliadau rhyngwladol o Ewrop a gwledydd eraill (gan gynnwys defnyddio ieithoedd eraill).
- Gweithgareddau drama/theatr.
- Dosbarthiadau meistr gan gerddorion sy'n ymweld.
- Gweithio gyda phobl broffesiynol o fyd chwaraeon.
- Digwyddiadau sy'n dathlu amrywiaeth ddiwylliannol yn yr ardal leol a'r tu hwnt.
- Dadansoddi swyddogaethau amrywiaeth o wahanol gyrff, *e.e. CADW, Amgueddfa Genedlaethol Cymru* a *Llyfrgell Genedlaethol Cymru* i ddeall eu cysylltiadau â'n treftadaeth ddiwylliannol.
- Ystyried agweddau ar y cyfryngau yng Nghymru, *e.e. y diwydiant ffilmiau neu gynhyrchu animeiddiadau* mewn cysylltiad â gwaith cyfatebol.
- Cysylltiadau cymunedol â chlybiau chwaraeon.

- Adolygu cynyrchiadau, llyfrau, cerddoriaeth a digwyddiadau penodol.
- Defnyddio cylchgronau â safbwyntiau Cymreig a rhyngwladol, e.e. *Planet a Barn*.
- Astudio ymdriniaeth y cyfryngau o ddigwyddiad diwylliannol cenedlaethol neu ryngwladol.
- Defnyddio rhaglen fenter i hyrwyddo cylchgronau/paentiadau/arteffactau eraill sy'n adlewyrchu creadigrwydd lleol.



**'Ein nod yw sicrhau bod profiadau diwylliannol o'r radd flaenaf ar gael i bawb, waeth beth yw eu cefndir neu ymhle y maent yn byw. Byddwn yn dathlu ac yn cadw treftadaeth eithriadol Cymru . . . '**

*Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru*
(Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007)

# Mynd i'r afael â'r fframwaith

## Dull ymholi a chynnydd o fewn CEB

Mae'r fframwaith yn canolbwyntio ar ddysgu sy'n seiliedig ar weithgarwch, gyda phwyslais penodol ar ymholi. Mae hyn yn galluogi myfyrwyr i gael profiad o weithio'n annibynnol ac o weithio fel rhan o dîm. Dylai'r dull hwn alluogi dysgwyr i ddatblygu i fod yn ddysgwyr mwy annibynnol, sydd angen llai o gymorth gan aelodau staff. Maen nhw'n symud o fod yn ddysgwyr goddefol i werthfawrogi manteision niferus gweithio'n annibynnol ac ar y cyd mewn grŵp er mwyn cyflawni eu hamcanion.

**"Yr unig unigolyn sy'n addysgiedig yw'r un sydd wedi dysgu sut i ddysgu a newid."**

Carl Rogers, seicolegydd

Dylid datblygu a defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr yng nghyd-destun eu llwybrau dysgu 14–19 unigol, gan gynnwys y Craidd Dysgu. Dylid cynllunio'r ddarpariaeth yn ystod y blynyddoedd hyn fel y gall dysgwyr ddatblygu o'r cyfarwydd i amrywiaeth mwy anghyfarwydd o gyd-destunau y tu allan i'w profiadau personol eu hunain. Dylen nhw symud ymlaen o'r pendant, megis gwybodaeth am eu hardaloedd eu hunain neu astudio arteffactau penodol, i gysyniadau mwy haniaethol am sefyllfa a dylanwad Cymru yn Ewrop a'r byd ehangach. Dylai fod ganddyn nhw ddealltwriaeth a phrofiad cynyddol o'r agweddau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ar fywyd ar draws y byd a'u dylanwad ar fywyd yng Nghymru.

Pan fo'n bosibl, bydd angen i ddarparwyr ystyried yr hyn sydd wedi digwydd yng nghyfnodau allweddol cynharach a sicrhau dilyniant trwy gynllunio ar gyfer y tasgau sydd i'w cyflawni, cymhlethdod y deunyddiau a ddefnyddir a'r annibyniaeth mae'n ofynnol i'r dysgwr ei dangos.

Nid yw'r fframwaith hwn yn rhagnodol. Yn hytrach, mae'n galluogi union natur y ddarpariaeth i adlewyrchu anghenion dysgwyr unigol, y math o ddarparwr dysgu a natur y gymuned leol yn ogystal â materion cyfredol sy'n wynebu Cymru, Ewrop a'r Byd.

Gall rhaglenni amrywio, felly, ond byddan nhw'n parhau i fodloni amcanion y fframwaith i ddatblygu, cymhwyso ac ehangu gwybodaeth, dealltwriaeth a phrofiadau uniongyrchol dysgwyr. Fodd bynnag, os yw'r myfyrwyr yn dilyn Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC)*, yna mae'r fanyleb yn cynnwys gofynion manwl CEB o fewn y cymhwyster hwnnw ar bob un o'i dair lefel mae'n rhaid i ymgeiswyr eu dilyn.

* Mae'r fanyleb CBC a chyfarwyddyd pellach ar gael wrth we-lywio drwy'r adrannau Athrawon/Hanfodion/Manylebau ar wefan CBC yn www.wbq.org.uk

## Integreiddio'r profiad dysgu



Er bod y fframwaith wedi'i rannu'n bedair elfen, sef gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol, nid yw'r rhain yn feysydd astudio sy'n annibynnol ar ei gilydd y dylid rhoi cynnig arnyn nhw ar wahân. Nid oes angen eu gosod mewn unrhyw drefn neu hierarchaeth benodol ychwaith. Mae'r elfennau'n cynrychioli ffyrdd o ystyried ein profiad o fyw yng Nghymru fel rhan o Ewrop a'r byd.

Gellid trefnu bod rhai gweithgareddau yn cynnwys dwy o'r elfennau hyn neu fwy. Er enghraifft, gallai sesiwn drafod gyda chynrychiolydd o elusen datblygu ddod o dan ddau neu dri o'r categorïau uchod. Dylid ystyried hyn yn nodwedd gadarnhaol o waith yn hytrach nag anfantais.

Nid oes unrhyw ofyniad i ddarparu CEB fel rhan ar wahân o amserlen dysgu unigolyn. Mewn ysgolion a cholegau, gellir darparu llawer o'r cyd-destunau a awgrymir yma o fewn dewisiadau pwnc/rhaglen, trwy raglenni addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh), yn ystod y ddarpariaeth addysg grefyddol neu fel rhan o raglen cyfoethogi'r cwricwlwm. Gall darparwyr hyfforddiant ddefnyddio cyd-destunau galwedigaethol penodol ar gyfer eu darpariaeth CEB. Dylai dysgu o fewn CEB hefyd gynorthwyo dysgwyr i wella eu sgiliau allweddol a darparu tystiolaeth ar gyfer eu portffolios cymwysterau sgiliau allweddol*.

Nid oes unrhyw ofyniad i fynd i'r afael â phob agwedd o bob elfen yr un mor drylwyr. Mae diddordebau unigol, materion o ddiddordeb lleol ac ystyriaeth o faterion cyfredol yn nodweddion dysgu dymunol yn y cyd-destun hwn. Fodd bynnag, disgwylir y bydd dysgwyr yn teimlo'n fwy sicr o'u lle fel aelodau o'r gymuned leol ac o genedl Cymru, fel Ewropeaid ac fel dinasyddion byd-eang ar ddiwedd cwrs astudio neu hyfforddiant.

* Mae canllawiau ar ofynion sgiliau allweddol ar gael wrth we-lywio drwy'r adrannau Athrawon/Addysgu/Sgiliau Allweddol ar wefan CBC yn www.wbq.org.uk

# Atodiad 1: Cwestiynau cyffredin

**"Dydw i ddim wedi troi'n Americanwr! Mae fy nhŷ yn digwydd bod yn LA. Mae'n gyfleus byw yno, dyna'r cwbl. Rwy'n cario Cymru o gwmpas y tu mewn i mi."**

Tom Jones, canwr


## Pam ddylem ni astudio CEB?

Mae'n beth da bod yn ymwybodol o ble rydych chi'n perthyn, o ran y lle rydych chi'n byw, eich cartref, eich cymuned, eich cenedl ac yn y byd yn gyffredinol. Mae ein hunaniaeth yn bwysig. Mae CEB yn gweithio'n dda pan gaiff ei ystyried yn elfen naturiol o waith parhaus y dysgwr, gan greu cyd-destun, cynyddu perthnasedd a gwneud cysylltiadau. Mae hefyd yn gweithio'n dda pan fydd yn cael ei amlinellu a'i ddarparu ochr yn ochr â fframweithiau eraill megis addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, addysg bersonol a chymdeithasol, a gyrfaoedd a'r byd gwaith.

## Felly, sut mae hyn yn wahanol i'r Cwricwlwm Cymreig?

Mae'n gyfle i edrych tuag allan. Mae CEB yn gosod yr elfen Gymreig o ddysgu yng nghyd-destun cysylltu ein profiadau ni â rhai pobl eraill yn lleol ac ymhellach i ffwrdd.

Hefyd, ceir rhywfaint o newid pwyslais fel y byddech yn disgwyl ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed. Mae eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau o fewn cymunedau yn tyfu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd hyn ac adlewyrchir hynny, er enghraifft, trwy ganolbwyntio ar yr elfen wleidyddol.




## Beth am yr iaith Gymraeg?

Cyflwynir y sefyllfa o ran yr iaith Gymraeg yn eglur yn nogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog*.

Mae gan sgiliau iaith Gymraeg le statudol fel gofyniad sylfaenol yng Nghraidd Dysgu'r llwybrau dysgu fel y maen nhw'n berthnasol i bobl ifanc 14 i 16 oed. I'r rhai hynny sy'n 16 i 19 oed, mae'r sgiliau iaith hyn yn parhau i fod yn rhan o'r Craidd Dysgu fel ychwanegiad. Mae pob un o bedair elfen CEB yn cynnig cyfleoedd i drafod materion iaith, ac i ddysgu ieithoedd fel dysgwr annibynnol ac mewn grŵp. Mae hyn yn berthnasol i'r Gymraeg ac ieithoedd tramor modern.

## Beth sy’n fan cychwyn da?

Ymgyfarwyddwch â’r fframwaith a darllenwch rai o’r enghreifftiau yn y cipluniau a’r mannau cychwyn yn y ddogfen hon. Byddan nhw’n cynnig amrywiaeth o brofiadau i chi y rhoddwyd cynnig arnyn nhw gan ddarparwyr dysgu eraill. Bydd union natur y profiad y byddwch chi’n gallu ei gynnig yn dibynnu ar y math o ddarparwr dysgu yr ydych chi, eich lleoliad, natur y gymuned leol a diddordebau eich dysgwyr. Ystyriwch a oes gweithgareddau tebyg yn cael eu defnyddio eisoes i gyflwyno agweddau ar addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, addysg bersonol a chymdeithasol, a gyrfaoedd a’r byd gwaith. (Mae Atodiad 4 y ddogfen hon yn darparu crynodeb o ddolenni.) Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i chi weithredu’r fframwaith a’i fonitro. Bydd hefyd yn rhoi mwy o gyd-destun i’r fframwaith, ac yn eich galluogi i osgoi dyblygu ac ailadrodd diangen yn eich darpariaeth.



## A oes unrhyw beryglon y dylid bod yn ymwybodol ohonyn nhw?

### Y ddarpariaeth

Y temtasiwn mwyaf amlwg yma yw addysgu llawer iawn o gynnwys heb fod y dysgwyr yn cymryd rhan yn ymarferol. Mae 'gwybodaeth a dealltwriaeth' wirioneddol yn digwydd pan fo dysgwyr yn gallu darganfod rhywbeth defnyddiol drostyn nhw eu hunain.

Hefyd, sicrhewch fod pob dysgwr yn cael y cyfleoedd hyn. Nid yw cynnig prosiectau proffil uchel i rai dysgwyr yn ddigon. Fodd bynnag, nid oes angen i bob dysgwr gael profiad o'r un ddarpariaeth yn union.

### Ymchwilio

Er mwyn ymchwilio i faterion CEB yn effeithiol, dylid addysgu sgiliau perthnasol i'r dysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys sgiliau ymchwil a llythrennedd cyfryngau. Mae angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol nid yn unig o ba mor ddefnyddiol yw deunyddiau ffynhonnell, ond hefyd y problemau a'r heriau sy'n gysylltiedig â nhw, yn enwedig pan fyddan nhw'n deillio o'r rhyngrwyd. Dylid addysgu dysgwyr i osgoi llên-ladrad. Dylai'r pwyslais mewn unrhyw ymchwiliad fod ar y ffordd mae dysgwyr yn defnyddio'r wybodaeth maen nhw'n ei chasglu i ddatblygu'r ymchwiliad hwnnw a dod i gasgliadau cydlynol, dilys. Nid yw casglu gwybodaeth yn unig yn ddigon.



Dylid annog dysgwyr i wneud gwaith ymchwil unigol yn ogystal â gweithio ar y cyd, gan werthfawrogi cryfderau a chyfyngiadau'r ddau ddull.

Mae creu arddangosiadau o waith disgyblion mewn man amlwg a'u rhannu gyda dysgwyr eraill nid yn unig yn amlygu CEB yn yr amgylchedd dysgu, ond hefyd yn ffordd dda o gynnwys dysgwyr a'u hysbysu am faterion, a hyrwyddo cyd-destunau ar gyfer gwaith ymchwilio.

Mae enghreifftiau o'r adnoddau ar gyfer CEB a ddarparwyd gan ganolfannau a dreialodd y cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar gael wrth we-lywio drwy'r adrannau Athrawon/Addysgu/Cymru, Ewrop a'r Byd yn www.wbq.org.uk

# Atodiad 2: Cipluniau a mannau cychwyn

Mae'r tudalennau canlynol yn cynnig cipolwg ar y gwaith sy'n cael ei wneud ledled Cymru. Mae pwyslais yr enghreifftiau'n amrywio ac mae pob enghraifft unigol yn cynnig rhan o'r darlun cyfan yn unig.

Gwleidyddol

Cymdeithasol

Diwylliannol

## Dysgu gweithredol, gweithio effeithlon

Mae rhai darparwyr dysgu wedi defnyddio gweithgareddau ar ffurf gweithdy ynghyd â dull addysgu tîm i ddarparu elfennau CEB ac ABCh Bagloriaeth Cymru. Mae myfyrwyr wedi trafod hawliau dynol, tlodi byd-eang a'u cyfrifoldebau fel dinasyddion gweithgar. Y canlyniad mewn un ganolfan oedd dymuniad i gymryd rhan mewn prosiect cymunedol i hyrwyddo Ymgyrch Amnest Rhyngwladol i Reoli Arfau. Roedd y prosiect yn cynnwys:

- trefnu arddangosfa mewn diwrnod agored
- creu fideo i godi ymwybyddiaeth gyda chymheiriaid
- rhoi cyflwyniadau mewn colegau, ysgolion lleol ac i grwpiau cymunedol
- cymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb gydag ACau ac ASau lleol.

Mae myfyrwyr hefyd wedi ystyried y mater o drais domestig ac wedi croesawu siaradwyr gwadd o'r lloches leol i fenywod. Rhoddodd gwybodaeth o Ewrop gyd-destun ehangach i'r gwaith a chyfle i ystyried gwahanol sefyllfaoedd diwylliannol.

Mae'r mathau hyn o ddulliau wedi rhoi sylw effeithlon i'r cynnwys ar yr un pryd â darparu profiad defnyddiol o ddysgu gweithredol. Mae'r fenter wedi hybu parch tuag at eraill yn ogystal â darparu cysylltiad naturiol â chyfranogiad cymunedol.


Gwleidyddol

Cymdeithasol

Economaidd

## Cymryd rhan yn 'fy Nghymru i'

Mewn un ysgol uwchradd, mae disgyblion 14 i 16 oed wedi cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth leol o ganlyniad naturiol i'w cwrs Dinasyddiaeth TGAU. Mae hyn wedi cynnwys arolygon cymunedol, trafodaethau, mynychu cyfarfodydd gyda swyddogion y cyngor lleol, cynghorwyr, ACau, ASau ac ASEau. Mewn ymateb i fater lleol, fe wnaethon nhw ystyried sylwadau o blaid ac yn erbyn cynnig dadleuol a chynllunio ymgyrch ar gyfer gweithredu. Fe wnaethon nhw ysgrifennu llythyrau, mynychu cyfarfodydd y pwyllgor cynllunio, trefnu deisebau, mynychu protestiadau, creu adroddiadau fideo a rhoi cyflwyniadau i gynghorwyr.



Un fantais bwysig fu eu dealltwriaeth o gymhlethdodau perchnogaeth – bydd pobl leol yn aml yn cyfeirio at y lle maen nhw'n byw fel 'fy' nhref ond bydd ganddyn nhw weledigaeth wahanol iawn ar gyfer y lle sy'n aml yn mynd yn groes i'w gilydd. Mantais allweddol arall fu magu hyder y disgyblion – siarad ac ysgrifennu gydag awdurdod am faterion cymunedol. Mae'r disgyblion wedi holi cynrychiolwyr etholedig yn rhwydd. Mae grwpiau cymunedol wedi gofyn am gefnogaeth y disgyblion mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Mae'r ysgol wedi ennill statws yn y gymuned trwy annog y disgyblion i fod yn gyfrifol ac yn rhagweithiol wrth ystyried materion lleol.

Un effaith arwyddocaol o'r pwyslais ar faterion lleol pwysig fu cynyddu ystyriaeth y disgyblion o bryderon rhyngwladol. Bellach, mae gan yr ysgol sefydliad partner yn Japan ac mae wedi gweithredu fel cynllun peilot ar gyfer prosiect Byd-Weithio! Oxfam.

Gwleidyddol

Cymdeithasol

Economaidd

Diwylliannol

## Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig




Bob blwyddyn, gwahoddir ysgolion yng Nghymru i ymgymryd â phrosiectau a'u cyflwyno ar gyfer cystadleuaeth Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig. Mae'r prosiectau'n golygu gwneud gwaith ymchwil, casglu deunyddiau, dadansoddi a gwerthuso. Mae'r canlyniadau'n cynnwys llyfrynnau, arddangosfeydd, perfformiadau, gwefannau, CDau a gwaith adfer. Mae myfyrwyr ac athrawon buddugol o bob cwr o Ewrop yn cyfarfod mewn cynhadledd flynyddol yn yr Almaen i rannu eu canfyddiadau.




Mewn ysgol yn Ne Cymru, mae myfyrwyr 16 i 19 oed yn cyflawni swyddogaeth arweiniol yn y gwaith ar gyfer y gystadleuaeth ac yn cynorthwyo disgyblion iau gyda'u gwaith ymchwil a'u cyflwyniad. Er enghraifft, roedd eu hastudiaeth o Siartiaeth a Gwrthryfel Casnewydd yn cynnwys gwaith ymchwil unigol, cynhyrchu ffolderi astudio a gweithgareddau dosbarth, a chyflwyniad dramatig yng ngharchar Brynbuga a recordiwyd ar CD i'w ddefnyddio yn yr ysgol yn y dyfodol.

Gwleidyddol

Cymdeithasol

## Integreiddio CEB ac ABCh

Cyflwynir elfennau CEB ac ABCh Bagloriaeth Cymru mewn ffordd integredig mewn nifer o ganolfannau. Er enghraifft, mae materion cymdeithasol yn gysylltiedig â dewisiadau ffordd o fyw; mae cyfrifoldeb gwleidyddol yn gysylltiedig â chyfrifoldeb personol. Mae hyn yn osgoi ailadrodd ac yn helpu'r myfyrwyr i wneud cysylltiadau.

Ysgogir perthnasedd a diddordeb hefyd mewn llawer o ganolfannau trwy fewnbwn gan asiantaethau allanol. Mae rhai enghreifftiau'n cynnwys Byddin yr Iachawdwriaeth, Barnardo's, ChildLine, y Comisiwn Etholiadol, Shelter Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae hyn yn gofyn am gynllunio gofalus ymlaen llaw, yn enwedig gan y bydd gallu a pharodrwydd sefydliadau i fodloni gofynion canolfannau addysg yn aml yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

Cymdeithasol

Diwylliannol

## Sefydlu cysylltiadau 'cynaliadwy' yn Ewrop

Mae ysgol yng Ngogledd Cymru wedi cynnwys pob disgybl mewn Prosiect Comenius am gynaliadwyedd, rheoli gwastraff a newid ffyrdd o fyw, gan ystyried gwahaniaethau ledled Ewrop ac ar draws cenedlaethau. Mae'r myfyrwyr yn rhannu syniadau am y prosiect gyda'u cymheiriaid yn Ffrainc, yr Almaen, Hwngari, yr Eidal a Sbaen a gallan nhw gyfrannu at CD-ROM, papurau newydd amlieithog a gwefan. Rheolir y rhain a gweithgareddau eraill gan 'fwrdd rhyngwladol' sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob cyfadran.



Cymdeithasol

Economaidd

Diwylliannol

## Gwahaniaethau Ewropeaidd

Mae ysgol uwchradd yng Ngogledd Cymru yn cymryd rhan mewn prosiect sy'n ystyried bywydau, diwylliannau a syniadau disgyblion mewn pum gwlad Ewropeaidd. Yn y gweithgaredd cyntaf, mae'r disgyblion yn trafod ffotograffau am eu bywydau ac yn cytuno ar 15 i'w hychwanegu at y wefan ar y cyd gyda chapsiynau. Yna mae'r dosbarthiadau'n penderfynu ar gwestiynau addas i ddatblygu eu dealltwriaeth o fywydau eu myfyrwyr partner.

Mae gweithgareddau eraill yn ystyried gwahaniaethau mewn chwaraeon, cerddoriaeth a safonau byw yn ogystal â'r hyn sy'n gwneud pob lle yn unigryw ac yn amrywiol. Y canlyniad yw dealltwriaeth fwy cyflawn o lawer o'r gwahaniaethau a'r tebygrwydd rhwng eu bywydau. Er bod y prosiect yn gweithio trwy rannu gwybodaeth a delweddau yn electronig, gellir trefnu ymweliadau o'r cysylltiadau hefyd.

Gwleidyddol

Cymdeithasol

Economaidd

Diwylliannol

## Creu cysylltiadau trwy gelf

Mewn ysgol yng Ngogledd Cymru, ceir cysylltiadau agos rhwng yr adran gelf a'r gymuned leol, gan gynnwys y clwb ieuenctid. Mae un prosiect wedi canolbwyntio ar gelf graffiti, gan ddangos ei datblygiad o Efrog Newydd yn y 1950au i'r presennol. Gyda chyllid Cymunedau yn Gyntaf, mae pobl ifanc yn y clwb wedi dysgu amrywiaeth o dechnegau graffeg yn ogystal â sut i'w defnyddio mewn lleoliadau sy'n dderbyniol yn gymdeithasol. Canlyniad y prosiect penodol hwn yw creu dyluniad ar gyfer y parc sglefrolio lleol.

Mae'r ysgol hefyd wedi llwyddo i gael arian grant ar gyfer ymweliad â'i hysgol gyswllt yn Ghana lle y peintiodd y disgyblion furlun mawr yn seiliedig ar y thema cyfeillgarwch. Peintiwyd y murlun eto yn ôl yn yr ysgol. Sefydlwyd 'clwb cyfeillion gohebol' rhwng yr ysgolion a chyfnewidiwyd gohebiaeth yn rheolaidd ers hynny. Manteision y mentrau hyn i ddisgyblion yw eu bod yn gweld diben go iawn i gelf ac yn cydnabod ei swyddogaeth wrth ddod â phobl at ei gilydd.

Gwleidyddol

Cymdeithasol

Diwylliannol

## Cael profiad o wahanol ddiwylliannau

Yn aml, mae gan ddarparwyr yn y gweithle, colegau ac ysgolion gysylltiadau â gwledydd eraill sydd wedi'u gwreiddio yn hanes y sefydliad penodol hwnnw.

Mae gan un ysgol yn Ne Cymru gysylltiadau ag Ysgol Ganol Rhif 18 yn Chongqing yn Tsieina. Yn dilyn ymweliad gan y Pennaeth, llofnodwyd memorandwm cytundeb a arweiniodd at ddatblygu cysylltiadau pellach â'r cwricwlwm a chynnal rhagor o ymweliadau. Gyda chymorth y rhwydwaith 14–19 lleol, mae'r ysgol wedi trefnu i athro Tsieineaidd ymweld â nhw ar gyfer prosiect a fydd yn para am flwyddyn. Mae'r disgyblion wedi bod yn dysgu am draddodiadau a diwylliannau'r Tsieineaid yn ogystal â dysgu Mandarin.



Mae ysgolion eraill wedi trefnu ymweliadau â Gwlad yr Iâ, yr Eidal, yr Unol Daleithiau a Tsieina.

Mewn un ysgol, datblygodd gysylltiad ag Athlone o ddiddordeb cyffredin mewn ieithoedd Celtaidd, a bellach cynigir y cyfle i ddisgyblion ac aelodau staff gael profiad gwaith yn Iwerddon.

Y neges gyffredin oddi wrth y rhai sydd wedi creu cysylltiadau llwyddiannus yw manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd wrth iddyn nhw godi a chanolbwyntio'n gadarn ar gynnal a datblygu unrhyw draddodiadau a sefydlwyd.

Cymdeithasol

Economaidd

Diwylliannol

## Yn rhan o Ewrop

Mae ysgol ym Mro Morgannwg wedi creu cysylltiadau ag ysgolion yn Copenhagen, Fayence, Barcelona a Turin. Mae'r gwaith a ariannwyd gan Comenius wedi cynnwys canolbwyntio ar sut y gall technoleg wella'r broses o addysgu mathemateg a gwyddoniaeth ym mhob ysgol. Cynhaliwyd prosiect cyffredin ar gymharu'r defnydd o ffynonellau ynni ym mhob gwlad. Mae'r myfyrwyr hefyd wedi cymryd rhan mewn prosiect celf i greu darluniau o straeon gwerin pob gwlad. Mae penaethiaid yr ysgolion sydd wedi'u cysylltu â'i gilydd wedi bod yn cymharu sut maen nhw'n defnyddio TGCh ar gyfer gweinyddiaeth a rheoli ymddygiad. Un o nodweddion unigryw'r ymrwymiad tair blynedd hwn yw ei fod wedi cynnwys pob ysgol yn ymarferol ar amrywiaeth o lefelau o'r brig i lawr, yn electronig ac wyneb yn wyneb. Yn fyr, mae bron pawb wedi cael cyfle i gymryd rhan.



Gwleidyddol

Cymdeithasol

Economaidd

## Gwleidyddiaeth ymarferol

Mae ysgolion a cholegau yn cydnabod bod dealltwriaeth wleidyddol yn cychwyn yn eich cymuned eich hun. Fel arfer, mae gan ysgolion amrywiaeth o gynghorau a grwpiau gwirfoddol ar gyfer materion megis cyffuriau, bwyta'n iach a'r amgylchedd. Gellir cysylltu'r rhain â Fforwm Ieuenctid lleol, sydd yn ei dro yn ethol cynrychiolwyr i'r corff cenedlaethol, Draig Ffynci.

Mae gan y rhan fwyaf o ddarparwyr hyfforddiant gytundebau dysgu unigol, cynrychiolwyr myfyrwyr etholedig, grwpiau ffocws a chyfleoedd i roi adborth ar-lein. Dywedir yn gyson bod cynnwys dysgwyr yn y broses o wneud penderfyniadau yn cael effaith gadarnhaol i'r ddwy ochr. Mae dysgwyr yn teimlo'n bwysig ac yn gyfrifol, ac maen nhw'n gwerthfawrogi'r newidiadau sydd yn aml yn rhai bach y gellir eu gwneud i wella sefyllfa ac yn cydnabod y rhesymau pam na ellir bodloni ceisiadau bob tro. Effaith ehangach fu cynyddu nifer y myfyrwyr â diddordeb mewn gwleidyddiaeth leol, genedlaethol a rhyngwladol.

Gwleidyddol

Cymdeithasol

Economaidd

Diwylliannol

## Cerddoriaeth leol, gweithredu byd-eang

Cafodd myfyrwyr mewn ysgol yng Ngorllewin Cymru gyfle i gyfarfod ag archeolegydd fforensig a ymchwiliodd i 'ddiflaniad' pobl yn Chile dan Pinochet. Fe wnaeth yr ymweliad Amnest Rhyngwladol hwn danio eu brwdfrydedd gymaint iddyn nhw drefnu cyngerdd i godi arian yn Llandeilo gyda chwe band newydd ifanc o bob cwr o Gymru a gytunodd i berfformio am gostau yn unig.

Llwyddodd y profiad i gysylltu gweithredu gwleidyddol rhyngwladol â'r gorau o gerddoriaeth leol gyfredol yn ogystal â chyfrannu at ardystiad craidd Bagloriaeth Cymru o ran cymryd rhan yn y gymuned a'r Sgìl Allweddol Gweithio ag eraill. Bonws pellach i'r rhai a gymerodd ran oedd i Amnest gyhoeddi ffotograffau o'r cyngerdd llwyddiannus yn eu cylchgrawn ieuenctid cenedlaethol.

Cymdeithasol

Diwylliannol

## Hybu iaith

Er mwyn rhoi cyflwyniad i iaith ac archwilio rhai dylanwadau amlddiwylliannol, treuliodd myfyrwyr mewn coleg yng Nghaerdydd ddau ddiwrnod ar ôl eu harholiadau Blwyddyn 12 yn cymryd rhan mewn sesiynau awr ar Gymraeg, Ffrangeg, Eidaleg, Almaeneg, Pwyleg a Japanaeg. Trefnwyd amrywiaeth eang o weithgareddau. Er enghraifft, canolbwyntiodd y sesiwn Sbaeneg ar gerddoriaeth: o salsa i Shakira, o fflamenco i Enrique Iglesias. Ar y cychwyn, trafododd y myfyrwyr sefyllfa bresennol yr iaith ac yna fe wnaethon nhw archwilio cefndir diwylliannol a hanesyddol y gwahanol fathau o gerddoriaeth, gan wrando ar enghreifftiau o bob un ohonyn nhw. Yn y sesiwn Japanaeg, dysgodd y myfyrwyr rai ymadroddion sylfaenol megis rhai i gyflwyno eu hunain ac i ddweud helô a hwyl fawr. Fe wnaethon nhw ystyried hefyd ddylanwadau Japaneaidd ar ein bywydau bob dydd: roedd swshi, nwdls, tempwra, cartwnau wedi'u hanimeiddio, gemau cyfrifiadur a ffonau symudol ymhlith yr enghreifftiau a archwiliwyd. Mwynhaodd y myfyrwyr y sesiynau ac fe'u hysgogwyd i ddechrau dysgu iaith nad oedd ganddyn nhw unrhyw wybodaeth amdani gynt.



Gwleidyddol

Cymdeithasol

Economaidd

## Cwmpas manylebau cymwysterau

Mae aelodau staff mewn coleg addysg bellach wedi archwilio manylebau cymwysterau i nodi lle y gallai materion CEB godi o'r rhaglenni galwedigaethol a ddewisir gan fyfyrwyr er mwyn cyfleu'r syniad o bethau'n gweithio gyda'i gilydd. Mae hyn mewn gwirionedd yn cyfleu syniad o ba mor berthnasol, diddorol a chyfredol yw'r cwrs yn ei gyfanrwydd. Er enghraifft, mae myfyrwyr chwaraeon yn ystyried y wleidyddiaeth sy'n gysylltiedig â chynnal y Gemau Olympaidd. Mae'r myfyrwyr Gwasanaethau Sector Cyhoeddus yn dilyn modiwlau ar Safbwyntiau Rhyngwladol, Amrywiaeth a Dinasyddiaeth sy'n eu galluogi i archwilio swyddogaethau'r Cenhedloedd Unedig, NATO a'r UE mewn perthynas â Chymru. Mae myfyrwyr gwyddoniaeth fforensig yn cysylltu â'r uned gwyddoniaeth fforensig leol ac yn cymryd rhan mewn ymarferion sy'n ymwneud â'r offer uwch-dechnoleg a ddefnyddir gan y tîm. Archwilir y materion sy'n ymwneud â chost a phrinder yr offer a ddefnyddir gan luoedd eraill o Gymru a Lloegr. Mae'r myfyrwyr yn dechrau deall sut y gall arbenigedd, o'i ddefnyddio'n dda, hyrwyddo Cymru yng ngolwg pobl eraill a chreu cysylltiadau sy'n gynhyrchiol i'r naill ochr a'r llall.

Gwleidyddol

Cymdeithasol

Economaidd

Diwylliannol

## Cymryd rhan

Mae ysgol arbennig yn Ne Cymru wedi llwyddo i gynnwys pob un o bedair elfen y fframwaith CEB. Maen nhw wedi ymweld ag aelodau'r Senedd ym Mae Caerdydd a'u cyfweld; mae eu cyngor ysgol wedi cynnal trafodaethau gyda chynghorwyr lleol ar faterion megis anabledd a chydraddoldeb. Maen nhw wedi cymryd rhan frwd yng nghystadleuaeth Menter yr Ifanc Cymru gan gyflwyno timau llwyddiannus ers sawl blwyddyn ac ennill y categorïau Adroddiad Cwmni Gorau a Chyflwyniad Gorau. Maen nhw wedi datblygu cysylltiadau ag ysgol arall yn Affrica, ac yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth y dysgwyr o ddiwylliannau eraill, maen nhw wedi helpu i godi arian i'r ysgol a'r cartref plant amddifaid lleol yno trwy eu hymdrechion cefnogol.



Gwleidyddol

Cymdeithasol

Economaidd

Diwylliannol

## Ariannu teithio

Un agwedd ar Wobr Dug Caeredin yng Nghaerdydd fu'r cyfle i bobl ifanc wneud gwaith ar daith dramor yn Awstralia a Kenya. Er mwyn sicrhau bod y cyfle hwn ar gael i bawb, mae gan y gweithwyr ieuenctid sydd dan sylw broses codi arian drefnus iawn sy'n cynnwys pacio bagiau, rafflau, nosweithiau cyri, cwisiau, teithiau cerdded noddedig a lansio balwnau. Mae'r holl ddarpar bobl ifanc yn cael eu cynnwys yn y broses a'u hannog yn ôl yr angen, ac mae rhai'n talu am y daith gyfan yn y modd hwn. Mae'r gwaith codi arian yn datblygu sgiliau gweithio fel rhan o dîm a ddefnyddir, mewn cyd-destunau gwahanol iawn, ar y daith ei hun. Mae'r daith yn gyfle i ddarganfod yn bersonol y tebygrwydd a'r gwahaniaethau mewn bywyd a diwylliant pobl o'u hoedran eu hunain mewn gwledydd eraill. Dywedodd un o'r bobl ifanc a gymerodd ran: 'Mae'n wych – gallwch gael profiad o bethau na fyddai'n bosibl i chi fel arall.'

Cymdeithasol

Diwylliannol

## Urdd Gobaith Cymru

Dyma'r sefydliad ieuenctid mwyaf yn Ewrop ac mae'n cyflawni swyddogaeth allweddol wrth hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru. Mae'n cynnig cyrsiau a chystadlaethau i ddysgwyr Cymraeg yn ogystal â'r rhai sy'n rhugl yn yr iaith. Cynhelir hefyd Eisteddfod ieuenctid genedlaethol flynyddol lle mae cystadleuwyr llwyddiannus o eisteddfodau lleol a rhanbarthol yn cystadlu yn erbyn ei gilydd.

Mae aelodau'r Urdd yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau cymdeithasol, diwylliannol a chwaraeon ac anogir myfyrwyr 16 oed a hŷn i gymryd cyfrifoldeb am drefnu gweithgareddau i ddisgyblion iau. Gall myfyrwyr hŷn hefyd wirfoddoli i gynorthwyo fel swyddogion (swogs) yn y ddwy ganolfan awyr agored yn Llangrannog a Glan-llyn. Yng Nglan-llyn, gall myfyrwyr dderbyn hyfforddiant mewn sgiliau chwaraeon ac ennill dyfarniadau arweinyddiaeth chwaraeon yn ogystal ag ymarfer a gwella eu Cymraeg llafar.

urdd.org
Urdd Gobaith Cymru

Gwleidyddol

Cymdeithasol

Economaidd

Diwylliannol

## Diplomyddiaeth i ddechreuwyr

Mae'r ffug-gynadleddau Cenhedloedd Unedig a drefnir gan CEWC-Cymru yn cynnig ffordd ryngweithiol a llawn hwyl i ysgolion ddysgu am ddiplomyddiaeth genedlaethol. Maen nhw'n gosod pynciau i'w trafod megis sefyllfa'r Cwrdiaid yn Affganistan neu'r newid yn yr hinsawdd a masnach fyd-eang. Yna, maen nhw'n darparu gwybodaeth gefndir/canllawiau i fyfyrwyr weithio mewn grwpiau o dri fel aelod-wladwriaethau, cenhedloedd arsylwi, sefydliadau anllywodraethol, yr ysgrifenyddiaeth a hyd yn oed y wasg ryngwladol. Mae'r myfyrwyr yn llunio datganiadau sefyllfa a syniadau ar gyfer cytundebau rhyngwladol. Y nod yw cytuno ar ateb rhyngwladol i'r mater dan sylw tra eu bod yn efelychu eu gwlad mewn ffordd mor ddilys â phosibl. Mae myfyrwyr yn teimlo eu bod yn manteisio o gael dirnadaeth o faterion y tu hwnt i'w ffiniau a'u pryderon lleol eu hunain, a gwerthfawrogiad o'r swyddogaethau y mae gwledydd yn eu cyflawni gyda'i gilydd yn y byd.



Gwleidyddol

Cymdeithasol

Economaidd

Diwylliannol

## Ein Cymru, ein hatebion

Mae'r Bartneriaeth Pobl Ifanc (PPI) ym Mhowys yn gweithredu mewn amgylchedd gwledig sy'n cyflwyno nifer o heriau o ran darparu gwasanaethau i bobl ifanc. Yn benodol, gall fod yn anodd dod o hyd i arbedion maint ac atebion cost-effeithiol. Mewn ysgol yn y Canolbarth, rhoddodd y PPI gyflwyniad ar yr heriau hyn, a ddilynwyd gan weithdai lle y nododd y myfyrwyr eu pryderon. Nodwyd mai cludiant oedd y prif rwystr sy'n atal pobl ifanc rhag cael mynediad at wasanaethau ac amwynderau. O ganlyniad i'r sesiwn, lluniwyd cynnig ar gyfer 'tylluan nos' – bws mini sy'n cynnig gwasanaeth rhad a dibynadwy i fyfyrwyr i'r ganolfan gelfyddydau leol ac yn ôl.

# Atodiad 3: Sgiliau ar draws y cwricwlwm

Datblygwyd y cynllun anstatudol *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* er mwyn darparu arweiniad ar barhad a dilyniant o ran datblygu sgiliau meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif. Mae'r fframwaith hwn wedi'i gynllunio hefyd i ddarparu dilyniant mewn cymwysterau sgiliau allweddol 14–19.

Mae chwe sgìl allweddol a ddatblygwyd yn genedlaethol, sef:

- Cyfathrebu
- Cymhwyso Rhif
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Gweithio ag Eraill
- Gwella eich Dysgu a'ch Perfformiad Eich Hun
- Datrys Problemau.

## Cyfathrebu

Wrth astudio CEB, mae dysgwyr yn cyfathrebu mewn sawl ffordd gan gynnwys siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu. Gallan nhw ddatblygu'r sgiliau hyn trwy gymryd rhan mewn trafodaethau, gwneud cyflwyniadau, cymryd rhan mewn cyfarfodydd tîm, cyfweliadau, cynnal arolygon a gwneud gwaith ymchwil. Gallan nhw ddatblygu ac adolygu eu gwaith eu hunain a gwaith dysgwyr eraill. Trwy wneud hynny, maen nhw'n dysgu sut i gyfathrebu'n effeithiol ac yn fwy hyderus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.

## Cymhwyso Rhif

Wrth astudio CEB, mae dysgwyr yn canfod, archwilio a dadansoddi data sy'n berthnasol i'w hanghenion a'r cyd-destun astudio, er enghraifft cymharu poblogaethau dinasoedd neu wledydd yn Ewrop a gweddill y byd. Gallai ymchwiliad trylwyr arwain at ddealltwriaeth well o strwythurau gwledydd eraill o'i gymharu â Chymru neu at ddealltwriaeth o'r galw am fwyd mewn rhannau amrywiol o'r byd. Bydd dadansoddiad ystadegol yn cynorthwyo dysgwyr i gyflwyno eu canfyddiadau'n eglur, efallai drwy ddefnyddio TGCh.

## Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Wrth astudio CEB, mae dysgwyr yn defnyddio TGCh i gyfathrebu'n effeithiol trwy e-bost, rhith-amgylcheddau dysgu, fideo-gynadledda ac amrywiaeth o weithgareddau ar-lein eraill. Byddan nhw'n defnyddio ac yn creu gwefannau a gwybodaeth ar y we i ddatblygu gwaith prosiect gyda phartneriaid ar draws y byd. Gallan nhw gael mynediad at holiaduron neu eu creu, a llunio arolygon ar-lein er mwyn cael dealltwriaeth drylwyr bellach o wahaniaethau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol amrywiol ledled Ewrop a'r byd, a thrwy hynny eu galluogi i wneud cymariaethau â Chymru. Maen nhw hefyd yn gallu manteisio ar eu sgiliau TGCh i gyfleu eu dealltwriaeth i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd.

## Gweithio ag Eraill

Wrth astudio CEB, mae dysgwyr yn gweithio ar y cyd wrth gynllunio gweithgareddau, er enghraifft trefnu dadleuon gyda gwleidyddion lleol; ymgynnull a threfnu cyfarfodydd i osod ac adolygu cerrig milltir ar gyfer cwblhau tasgau. Maen nhw'n neilltuo swyddogaethau a chyfrifoldebau o fewn gweithgaredd tîm i sicrhau canlyniad effeithiol. Maen nhw'n datblygu ac yn adolygu eu gwaith eu hunain a gwaith dysgwyr eraill, gan ddarganfod pa mor effeithiol y bu eu hymdrechion ar y cyd.

## Gwella eich Dysgu a'ch Perfformiad Eich Hun

Wrth astudio CEB, mae dysgwyr yn gweithio'n annibynnol ac yn gosod targedau i'w hunain er mwyn mesur llwyddiant. Gallan nhw ofyn i bobl eraill eu helpu i gynllunio a monitro cynnydd tuag at dargedau a osodwyd, gan gynnwys cynllunio gweithredu a phwyntiau adolygu eglur. Gall y targedau fod yn berthnasol i ddatblygu sgìl, er enghraifft dysgu ysgrifennu neu siarad ychydig o ymadroddion mewn iaith Ewropeaidd neu ddysgu sgìl perfformio newydd, er enghraifft canu mewn côr, neu chwarae rhan mewn drama neu sioe gerdd sy'n golygu bod angen llawer o ymarfer. Mae'r dysgwr yn datblygu sgiliau trefnu a rheoli amser i gyflawni amcanion heriol.

## Datrys Problemau

Wrth astudio CEB, bydd angen i ddysgwyr nodi a mynegi'n eglur y broblem maen nhw'n ei hystyried yn ogystal â'r meini prawf i'w defnyddio er mwyn penderfynu pryd y datryswyd y broblem, er enghraifft dan y themâu economaidd/diwylliannol/cymdeithasol gallan nhw ystyried sut y gallai cymuned leol ddarparu cyfleuster amlddiben cost-effeithiol sy'n hybu ffordd iachach o fyw. Byddai angen iddyn nhw awgrymu datrysiadau posibl, ymchwilio i bob un ohonyn nhw a nodi'r ateb gorau posibl gyda chynllun cost-effeithiol. Gallan nhw hefyd adolygu eu dulliau a gweld pa mor effeithiol y buon nhw wrth ddatrys problemau.

**Mae enghreifftiau o sut mae CEB yn cysylltu â phob un o dair lefel y Sgiliau Allweddol Cyfathrebu, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Gweithio ag Eraill, Gwella eich Dysgu a'ch Perfformiad Eich Hun a Datrys Problemau ar gael wrth we-lywio drwy'r adrannau Athrawon/Addysgu/Sgiliau Allweddol ar wefan CBC yn www.wbq.org.uk**

**Mae enghreifftiau o sut mae CEB yn cysylltu â phob un o dair lefel y Sgìl Allweddol Cymhwyso Rhif ar gael wrth we-lywio drwy'r adrannau Athrawon/Hanfodion/Manylebau ar wefan CBC yn www.wbq.org.uk**

# Atodiad 4: Cysylltiadau ar draws y cwricwlwm

## Y Cwricwlwm Cymreig (7–14)

Dylai dysgwyr 7 i 14 oed fod wedi cael cyfleoedd i ddatblygu a defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru.

Mae CEB yn adeiladu ar y Cwricwlwm Cymreig ar gyfer disgyblion 14 i 19 oed.

## Addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh)

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr 11 i 19 oed ddatblygu eu hiechyd a'u lles emosiynol a'u datblygiad moesol ac ysbrydol; i fod yn ddinasyddion gweithgar a hybu datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang; ac i baratoi ar gyfer dysgu gydol oes. O ran dysgwyr 14 i 19 oed, mae hyn yn rhan o'u hawl Craidd Dysgu ac mae'n ofyniad yng Nghyfnod Allweddol 4.

Mae CEB yn cyfrannu at hyn trwy gynorthwyo dysgwyr i:

- ddatblygu dealltwriaeth o natur cymunedau yng Nghymru a'r swyddogaethau, y cysylltiadau, y gwrthdaro a'r anghydraddoldebau sy'n effeithio ar ansawdd bywyd
- gwerthfawrogi natur amrywiol cymunedau o amgylch y byd
- datblygu ymwybyddiaeth o wahanol arferion a thraddodiadau ar draws y byd a'u heffaith ar ffyrdd o fyw.

## Gyrfaoedd a'r byd gwaith (GBG)

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr 11 i 19 oed ddatblygu eu hymwybyddiaeth o yrfaoedd a byd gwaith a sut mae eu hastudiaethau yn helpu i'w paratoi ar gyfer bywyd gwaith. O ran dysgwyr 14 i 19 oed, mae hyn yn rhan o'u hawl Craidd Dysgu ac mae'n ofyniad yng Nghyfnod Allweddol 4.

Mae CEB yn cyfrannu at hyn trwy archwilio cyfleoedd i weithio yn Ewrop ac ar draws y byd, er enghraifft, a thrwy gymharu'r marchnadoedd llafur ar draws y byd â'r rhai yng Nghymru. Mae'n darparu cyfleoedd i archwilio goblygiadau stereoteipio mewn cyflogaeth yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang, yn ogystal a chyfleoedd i astudio effaith gweithwyr mudol ar economi gwledydd ym mhob rhan o'r byd.

## Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF)

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr 11 i 19 oed ystyried materion byd-eang; gwneud cysylltiadau rhwng yr hyn sy'n bersonol, yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang; cymryd rhan mewn profiadau diwylliannol amrywiol; gwerthuso'n feirniadol eu gwerthoedd a'u hagweddau eu hunain; a datblygu sgiliau a fydd yn eu galluogi i herio anghyfiawnder, rhagfarn a gwahaniaethu.

Mae CEB yn cyfrannu at hyn trwy ysgogi dysgwyr i archwilio materion byd-eang. Maen nhw'n datblygu dealltwriaeth o'u swyddogaeth a'u cyfrifoldebau fel defnyddwyr byd-eang ac i herio anghyfiawnder ac anghydraddoldeb, a hybu byd tecach a mwy cynaliadwy. Byddan nhw'n nodi cysylltiadau rhwng cymdeithas, yr economi a'r amgylchedd a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau economaidd effeithiol. Bydd dysgwyr yn caffael y sgiliau, yr wybodaeth a'r dealltwriaeth a fydd yn eu galluogi i ystyried y ffordd y gwneir penderfyniadau yn eu cymunedau lleol, o'i chymharu â'r hyn sy'n digwydd yn genedlaethol a thrwy'r byd. Bydd hyn wedyn yn golygu eu bod yn gallu cymryd rhan mewn materion o bob cwr o'r byd fel dinasyddion byd-eang.

## Cysylltiadau â dogfennau a fframweithiau 14–19 eraill – Cymru, Ewrop a'r Byd: 14–16

| Thema CEB | ADCDF | ABCh | GBG |
|---|---|---|---|
| Gwleidyddol | • **Dewisiadau a phenderfyniadau**<br>– Materion byd-eang a materion cyfredol<br>– Hawliau a chyfrifoldebau<br>– Dylanwadu ar benderfyniadau gwleidyddol, grwpiau pwyso, y cyfryngau, barn y cyhoedd<br>– Llywodraethu rhyngwladol, y Cenhedloedd Unedig a chyrff eraill<br>• **Newid yn yr hinsawdd**<br>– Lleol, cenedlaethol a rhyngwladol<br>– Cysylltiadau rhwng cludiant a'r newid yn yr hinsawdd | • **Dinasyddiaeth weithgar**<br>– Gwerthfawrogi amrywiaeth a chyfle cyfartal, a chael eu cythruddo gan anghyfiawnder, cam-fanteisio a gwrthod hawliau dynol<br>– Deall sut mae systemau gwleidyddol yn gweithio yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol<br>– Deall prif nodweddion y prif bleidiau gwleidyddol yng Nghymru<br>– Deall y cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau, yn lleol ac yn genedlaethol<br>– Deall pwysigrwydd cymryd rhan mewn etholiadau democrataidd<br>– Pwysigrwydd cael mynediad at wybodaeth ddiduedd a bod yn barod i herio<br>– Materion cyfoes lleol a byd-eang | • **Chwilio am wybodaeth**<br>Archwilio cyfleoedd a thueddiadau o ran cyflogaeth a dysgu yn lleol ac ymhellach i ffwrdd<br>• **Deall byd gwaith**<br>Archwilio goblygiadau stereoteipio mewn cyflogaeth a hyfforddiant gan gydnabod manteision agwedd gadarnhaol tuag at wahaniaeth ac amrywiaeth |
| Cymdeithasol | • **Iechyd**<br>– Amgylchedd a ffordd o fyw iachus yn lleol ac yn fyd-eang<br>– Pandemig byd-eang<br>• **Yr amgylchedd naturiol**<br>– Cadwraeth<br>– Llygredd a datblygu cynaliadwy<br>• **Cyfoeth a thlodi**<br>– Cyfoeth a thlodi o fewn cymdeithasau a rhyngddyn nhw<br>– Diwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol | • **Dinasyddiaeth weithgar**<br>– Datblygu parch atyn nhw eu hunain a phobl eraill<br>– Herio'n bendant mynegiadau o ragfarn, hiliaeth a stereoteipio<br>• **Iechyd a lles cymdeithasol**<br>– Derbyn cyfrifoldeb personol am gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach<br>– Sut i gael mynediad at gymorth personol a chyngor iechyd proffesiynol<br>• **Datblygiad moesol ac ysbrydol**<br>– Sut mae credoau a gwerthoedd yn effeithio ar hunaniaeth bersonol a ffordd o fyw<br>– Yr amrywiaeth o werthoedd ac egwyddorion y mae pobl yn byw eu bywydau yn unol â nhw | • **Deall byd gwaith**<br>– Archwilio eu cyfrifoldebau a'u hawliau fel cyflogeion<br>– Defnyddio profiadau sy'n canolbwyntio ar waith i ddeall yn well pa sgiliau a phriodweddau personol y mae cyflogwyr eu heisiau<br>• **Cyflawniad personol**<br>– Datblygu CV yn seiliedig ar lwyddiannau, galluoedd, diddordebau a sgiliau<br>• **Cyfarwyddyd**<br>– Cyfarwyddyd diduedd ar yrfaoedd<br>– Syniadau ar gyfer gyrfaoedd a'r effeithiau posibl ar eu bywydau<br>– Rhwystrau sy'n atal dyheadau ar gyfer y dyfodol<br>• **Gwneud penderfyniadau a'u rhoi ar waith**<br>– Gwneud penderfyniadau am lwybrau gyrfaol unigol<br>– Hybu hunanddelwedd gadarnhaol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Economaidd | • **Cyfoeth a thlodi**<br>– Cyfoeth a thlodi o fewn cymdeithasau a rhyngddyn nhw<br>– Diwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol<br>– Tensiynau rhwng twf economaidd, datblygu cynaliadwy ac anghenion sylfaenol<br>• **Defnydd a gwastraff**<br>– Rhyng-ddibyniaeth systemau economaidd byd-eang<br>– Dadansoddi cylch oes cynhyrchion<br>• **Newid yn yr hinsawdd**<br>– Cysylltiadau rhwng cludiant a'r newid yn yr hinsawdd | • **Datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang**<br>– Cymryd cyfrifoldeb personol am newid eu ffyrdd eu hunain o fyw mewn ymateb i faterion lleol a byd-eang<br>– Deall rhyng-ddibyniaeth systemau economaidd byd-eang ac effaith datblygiad dynol ar systemau naturiol<br>– Deall y tensiynau rhwng twf economaidd, datblygu cynaliadwy ac anghenion sylfaenol<br>• **Paratoi ar gyfer dysgu gydol oes**<br>– Deall eu hawliau fel defnyddwyr a'u cyfrifoldebau o ran rheoli cyllidebau<br>– Deall pwysigrwydd cynllunio ar gyfer eu dyfodol ariannol a sut i gael cyngor ariannol | • **Deall byd gwaith**<br>Archwilio swyddogaeth menter/creu cyfoeth a datblygu'r gallu i weithredu mewn ffyrdd entrepreneuraidd<br>• **Cyfarwyddyd**<br>Deall y rhagolygon a'r patrymau datblygiad mewn swyddi |
| Diwylliannol | • **Hunaniaeth a diwylliant**<br>– Cyfle cyfartal<br>– Amrywiaeth<br>– Iaith, credoau a gwerthoedd | • **Dinasyddiaeth weithgar**<br>– Datblygu parch atyn nhw eu hunain a phobl eraill<br>• **Datblygiad moesol ac ysbrydol**<br>– Sut y mae credoau a gwerthoedd yn effeithio ar hunaniaeth bersonol a ffyrdd o fyw<br>– Y ffactorau sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau moesol<br>– Yr amrywiaeth o werthoedd ac egwyddorion y mae pobl yn byw eu bywydau yn unol â nhw | • **Deall byd gwaith**<br>Archwilio goblygiadau stereoteipio mewn cyflogaeth a hyfforddiant gan gydnabod manteision agwedd gadarnhaol at wahaniaeth ac amrywiaeth |

| Thema CEB | ADCDF | ABCh | GBG |
|---|---|---|---|
| Gwleidyddol | • **Dewisiadau a phenderfyniadau**<br>– Dangos cyfranogiad gweithredol yn y gymuned<br>– Cymryd rhan mewn dadleuon, etholiadau democrataidd a phrosesau ymgynghori<br>– Deall natur ryng-gysylltiedig systemau cymdeithasol-wleidyddol ac economaidd mewn gwneud penderfyniadau amgylcheddol<br>– Yr angen am gydweithredu rhyngwladol<br><br>• **Newid yn yr hinsawdd**<br>– Cefnogi’r angen am gydweithio’n lleol ac yn fyd-eang i fynd i’r afael â’r newid yn yr hinsawdd<br>– Cyfrifo ôl-troed carbon | • **Dinasyddiaeth weithgar**<br>– Deall gweithdrefnau etholiadol, prosesau a phwerau systemau gwleidyddol lleol, cenedlaethol, Ewropeaidd a rhyngwladol<br>– Deall prif bolisïau pleidiau gwleidyddol mawr y DU<br>– Deall swyddogaeth Ewrop o fewn llywodraeth gyfansoddiadol y DU<br>– Deall y cyfleoedd i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol<br>– Deall sut y mae dylanwad unigolion a grwpiau gwirfoddol yn arwain at newid yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol<br>– Deall sut y gall barn y cyhoedd, grwpiau lobïo a’r cyfryngau ddylanwadu ar benderfyniadau democrataidd<br>– Cymryd rhan ymarferol yn y gymuned<br><br>• **Iechyd a lles emosiynol**<br>Deall swyddogaeth y wladwriaeth wrth hybu iechyd a lles emosiynol y cyhoedd<br><br>• **Datblygiad moesol ac ysbrydol**<br>Deall y problemau moesol a moesegol a wynebir gan gymdeithas ac unigolion a sut y gellid datrys materion o’r fath<br><br>• **Datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang**<br>Deall yr angen am gydweithredu rhyngwladol a’r swyddogaeth a gyflawnir gan sefydliadau anllywodraethol | • **Chwilio am wybodaeth**<br>– Ymchwilio a gwerthuso amrywiaeth o wybodaeth am yrfaoedd a’r farchnad lafur yng Nghymru<br>– Archwilio sut y gallai cyfleoedd ym Mhrydain, Ewrop a gweddill y byd effeithio ar syniadau am yrfaoedd<br>– Trafod effaith tueddiadau cyfredol mewn patrymau gwaith ar lwybrau gyrfaol<br>– Cael mynediad at a dadansoddi cyfarwyddyd realistig, diduedd ar lwybrau addysg/gyrfaol/gwaith |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymdeithasol | • **Iechyd**<br>– Ymwybyddiaeth o’r pwysau cymhleth sy’n atal pobl rhag dilyn ffyrdd iach o fyw<br>– Deall yr heriau sy’n gysylltiedig â darparu gofal iechyd yn lleol ac yn fyd-eang<br>– Deall y gweithredoedd presennol sy’n pennu ffyrdd iach o fyw yn y dyfodol<br>• **Yr amgylchedd naturiol**<br>– Cefnogi cadwraeth byd natur<br>– Deall egwyddorion datblygu cynaliadwy ecolegol<br>• **Newid yn yr hinsawdd**<br>Cefnogi’r angen am gydweithio’n lleol ac yn fyd-eang i fynd i’r afael â’r newid yn yr hinsawdd | • **Iechyd a lles emosiynol**<br>– Derbyn cyfrifoldeb am bob agwedd ar ddatblygiad a lles personol a chymdeithasol<br>– Gosod esiampl gadarnhaol<br>– Cymryd cyfrifoldeb am ddiogelwch grŵp mewn sefyllfaoedd cymdeithasol<br>• **Datblygiad moesol ac ysbrydol**<br>Deall y cysyniad o gyfrifoldeb moesol a’r angen am werthoedd cyffredin | • **Deall byd gwaith**<br>– Deall eu cyfrifoldebau a’u hawliau fel cyflogeion<br>– Ehangu eu gwybodaeth am gyfleoedd busnes a hunangyflogaeth<br>– Defnyddio profiadau sy’n canolbwyntio ar waith i ddeall yn well pa sgiliau a phriodweddau personol y mae cyflogwyr eu heisiau<br>• **Cyflawniad personol**<br>Parhau i ddatblygu CV yn seiliedig ar lwyddiannau, galluoedd, diddordebau a sgiliau i gynyddu eu cyflogadwyedd<br>• **Gwneud penderfyniadau a’u rhoi ar waith**<br>Hybu hunanddelwedd gadarnhaol wrth gyflwyno ceisiadau a mynychu cyfweliadau |
| Economaidd | • **Cyfoeth a thlodi**<br>– Ystyried sut y gallai gweithredoedd unigol gynyddu neu leihau tlodi<br>– Sylweddoli bod tegwch a chyfiawnder yn angenrheidiol mewn cymuned gynaliadwy<br>• **Defnydd a gwastraff**<br>– Gwerthfawrogi gwerth cynllunio cynaliadwy<br>– Lleihau defnydd personol a sefydliadol<br>– Deall sut i fod yn gwsmer moesegol | • **Datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang**<br>– Dangos yn ymarferol gyfrifoldeb personol fel dinesydd byd-eang<br>– Sylweddoli pam y mae tegwch a chyfiawnder yn angenrheidiol mewn cymuned gynaliadwy<br>– Deall heriau ac effeithiau globaleiddio<br>• **Paratoi ar gyfer dysgu gydol oes**<br>Cynyddu annibyniaeth o ran rheoli cyllid personol a chael mynediad at gredyd | • **Deall byd gwaith**<br>– Cymryd rhan mewn gweithgareddau sy’n annog dull entrepreneuraidd o weithio a chreu cyfoeth<br>– Ystyried goblygiadau eu syniadau am yrfa o ran arian a ffordd o fyw |
| Diwylliannol | • **Hunaniaeth a diwylliant**<br>– Deall sut y mae gwahaniaethau diwylliannol yn effeithio ar ein safbwynt o ran natur, gwyddoniaeth a chymdeithas<br>– Deall sut y gellir trafod a datrys problemau moesegol a wynebir gan gymdeithas ac unigolion | • **Datblygiad moesol ac ysbrydol**<br>– Y cysyniad o gyfrifoldeb moesol a’r angen am werthoedd cyffredin<br>– Y problemau moesol a moesegol a wynebir gan gymdeithas | • **Deall byd gwaith**<br>Trafod y manteision y gall amrywiaeth eu cynnig i’r gweithle a’r anfanteision y gellir eu creu trwy stereoteipio |

# Atodiad 5: Hunanwerthuso

Cynigir dwy ffordd o hunanwerthuso ar y tudalennau canlynol:

- Holiadur hunanwerthuso
- Dull hunanwerthuso.

Efallai y bydd darparwyr dysgu unigol yn dymuno eu haddasu i'w hamgylchiadau eu hunain. Maen nhw hefyd ar gael ar ffurf Word yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

Mae'r Holiadur hunanwerthuso yn cynnig man cychwyn i ddarparwyr dysgu fyfyrio ar eu sefyllfa bresennol a'u blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol. Fe'i cynlluniwyd i'w gwblhau gan gydgysylltwyr neu arweinwyr tîm er mwyn canfod hyd a lled y ddarpariaeth mewn ardal benodol. Yna, gellir dadansoddi'r darlun cyfan i nodi arfer da ac unrhyw fylchau. Mae hwn wedi profi i fod yn ddull defnyddiol o archwilio'r sefyllfa o ran CEB ac, yn benodol, pan fo aelod o staff yn newydd i'r cyfrifoldeb o gydgysylltu CEB neu pan fo tîm yn adolygu ei ddarpariaeth bresennol.

Mae'r Dull hunanwerthuso wedi'i chynllunio at ddibenion mwy ffurfiol a gellid ei defnyddio fel rhan o adolygiad ehangach o'r ddarpariaeth neu fel ffordd o fesur faint o gynnydd a wnaed ers ystyriaeth gychwynnol o CEB.

Yn yr un modd â phob dull hunanwerthuso ac archwilio, nid yw'r rhain yn ganlyniad ynddyn nhw eu hunain. Maen nhw'n werthfawr dim ond yn yr ystyr eu bod yn cymell pobl i feddwl a blaenoriaethu camau gweithredu mewn ffordd gydlynol ac effeithlon.

## Cymru, Ewrop a'r Byd (CEB) – Holiadur hunanwerthuso

| | |
|---|---|
| **1** | Pa mor amlwg yw CEB i aelodau staff a dysgwyr? |
| | |
| **2** | Beth yw ein cryfderau presennol yn yr agwedd hon ar ddysgu? |
| | |
| **3** | Sut mae'r gweithgareddau a gyflawnir yn gwella sgiliau'r dysgwyr? |
| | |
| **4** | I ba raddau rydyn ni'n defnyddio dulliau gweithredol a chyfranogol i gynnwys dysgwyr? |
| | |
| **5** | Pa gysylltiadau/gydweithrediadau sy'n ategu CEB? |
| | |
| **6** | I ba raddau mae'r gweithgareddau a gyflawnir yn cefnogi ac yn annog mynediad a chynhwysiant? |
| | |
| **7** | Sut rydyn ni'n cynnig dilyniant o fewn yr agwedd hon ar ddysgu, gan osgoi ailadrodd cynnwys yn sylweddol? |
| | |
| **8** | Pa drefniadau sy'n bodoli i gynnal proffil cytbwys a pherthnasol ar gyfer CEB o fewn llwybrau dysgu unigol? |
| | |
| **9** | Pa ddatblygiadau fyddai'n gwella ein trefniadau presennol fwyaf? |
| | |

## Cymru, Ewrop a'r Byd (CEB) – Dull hunanwerthuso

| Mater | 1 | 2 | 3 | 4 | Pa dystiolaeth sydd gennym ni? | Sut gallwn ni wella? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynnwys CEB yn ein rhaglenni dysgu**<br>• Allwn ni ddangos ein bod yn rhoi cyfleoedd i'n dysgwyr ddatblygu ymwybyddiaeth o faterion CEB?<br>• Ydy CEB yn cael ei gynnwys yn ddigonol ar draws ein rhaglenni dysgu? | | | | | | |
| **Annog dysgu gweithredol a chyfranogol**<br>• Ydyn ni'n hyrwyddo dulliau gweithredol a chyfranogol ar draws ein darpariaeth ddysgu i ddatblygu CEB?<br>• Ydy ein darpariaeth yn ceisio adborth gan fyfyrwyr?<br>• Oes gennym ni gysylltiadau da a chynaliadwy ag asiantaethau sy'n debygol o gefnogi'r ddarpariaeth CEB? | | | | | | |
| **Datblygu sgiliau ym maes CEB**<br>• Oes cysylltiad eglur rhwng y ddarpariaeth CEB a sgiliau allweddol?<br>• Oes cysylltiadau wedi'u nodi yn y ddarpariaeth rhwng CEB a fframweithiau eraill yn y Llwybrau Dysgu 14–19? | | | | | | |

**Allwedd:** 1 Sylfaenol 2 Datblygol 3 Datblygedig 4 Sefydledig

| Mater | 1 | 2 | 3 | 4 | Pa dystiolaeth sydd gennym ni? | Sut gallwn ni wella? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mynediad a chynhwysiant ym maes CEB**<br>• Ydy **pob** dysgwr 14 i 16 oed yn cael mynediad priodol at brofiadau sy'n ymwneud â CEB?<br>• Ydy **pob** dysgwr ôl-16 yn cael mynediad priodol at brofiadau sy'n ymwneud â CEB? | | | | | | |
| **Dilyniant**<br>• Oes dilyniant a gynlluniwyd rhwng y ddarpariaeth 14–16 a'r ddarpariaeth ôl-16?<br>• Ydy ein darpariaeth yn osgoi ailadrodd a dyblygu? | | | | | | |
| **Proffil cyffredinol CEB yn ein sefydliad**<br>• Oes gennym ni unigolyn sy'n gyfrifol am sicrhau bod proffil a darpariaeth CEB yn briodol ac yn gyson ar draws rhaglenni pob dysgwr?<br>• Oes gennym ni system i sicrhau bod y ddarpariaeth CEB yn gynaliadwy ac o ansawdd uchel dros amser? | | | | | | |

**Allwedd:** 1 Sylfaenol 2 Datblygol 3 Datblygedig 4 Sefydledig

# Atodiad 6: Enghreifftiau o wefannau defnyddiol

**Mae'r canlynol yn cynnwys gwefannau sydd wedi bod yn ddefnyddiol i ddarparwyr dysgu yng Nghymru. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr ac nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn cyfrifoldeb am gynnwys y gwefannau hyn.**

**Rhestrir y gwefannau yn nhrefn yr wyddor.**

**Nodir seren wrth ochr gwefannau dwyieithog/Cymraeg.**

***100 Arwyr Cymru**: Manylion am bobl sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i hanes Cymru.
www.100welshheroes.com

***Academi**: Mae'r Academi Gymreig yn gyfrifol am hybu llên. Mae'r wefan yn cynnwys manylion awduron ar daith, preswylfeydd llenyddiaeth a Sgwadiau 'Sgwennu'r Ifainc. Darperir gwybodaeth am dderbyn cyllid hefyd.
www.academi.org

***Adran Hybu Iechyd, Llywodraeth Cynulliad Cymru**: Mae'n annog dulliau ysgol gyfan o hybu iechyd. Mae cydgysylltwyr lleol yn darparu cymorth a chyfarwyddyd.
www.eysgoliach.org.uk

***Amgueddfa Cymru**: Gwybodaeth am gelf, archaeoleg, byd natur, daeareg, a hanes cymdeithasol a diwydiannol Cymru. Mae'n cynnwys adran addysg ar gyfer ysgolion a cholegau.
www.amgueddfacymru.ac.uk

***Bagloriaeth Cymru**: Gwefan ar gyfer cymhwyster Bagloriaeth Cymru sy'n cynnwys gwybodaeth am CEB.
www.wbq.org.uk

***Cadwch Gymru'n Daclus**: Mae'n rheoli'r rhaglen Eco-Ysgolion yng Nghymru sy'n cynnig gweithgareddau addysgu a dysgu yn ogystal â gweithredu yn yr ysgol ac yn y gymuned.
www.eco-schoolswales.org

***Canolfan Gymreig Materion Rhyngwladol**: Fforwm cenedlaethol ar gyfer cyfnewid syniadau am faterion rhyngwladol.
www.wcia.org.uk

***Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru**: Gwybodaeth am yr amrywiol gyrff Celfyddydau Cenedlaethol ar gyfer Ieuenctid yng Nghymru, yn cynnwys cerddorfa bres, côr, dawns, jazz, theatr, cerddorfa a cherddorfa chwyth. Partneriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r wefan yn cynnwys dyddiadur digwyddiadau a ffordd o dderbyn y newyddion diweddaraf.
www.nyaw.co.uk

***Celfyddydau Rhyngwladol Cymru**: Ei nod yw cefnogi'r gwaith o hybu a datblygu arfer proffesiynol ar draws pob math o gelfyddyd, gan ddarparu gwybodaeth am y celfyddydau yng Nghymru i sefydliadau diwylliannol.
www.wai.org.uk

***Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**: Mae'r wefan hon yn darparu gwybodaeth ffeithiol sylweddol, astudiaethau achos unigol, llyfrgell ar-lein, gemau rhyngweithiol ac adnoddau fideo ar-lein (mae rhai o'r rhain ar gael yn ddwyieithog).
www.equalityhumanrights.com

***Culturenet Cymru**: Ei nod yw hyrwyddo diwylliant a hanes Cymru, gan gynnwys y celfyddydau, treftadaeth, chwaraeon, twristiaeth ac addysg.
www.culturenetcymru.com

***Cyfanfyd**: Grŵp ambarél ar gyfer sefydliadau sy'n gweithio i hyrwyddo addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang yng Nghymru.
www.cyfanfyd.org.uk

***Cyfnewid UNA**: Elusen sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer teithiau cyfnewid diwylliannol lle mae gwirfoddolwyr ifanc yn gweithio dramor ar brosiectau cymunedol.
www.unaexchange.org

***Cyllid Ewropeaidd**: Gallai fod yn bosibl datblygu cysylltiadau â phartneriaid Ewropeaidd a rhai byd-eang gyda chymorth y Cyngor Prydeinig. Mae'r wefan yn cynnwys cyngor ac astudiaethau achos.
www.britishcouncil.org

***Cyngor Addysg mewn Dinasyddiaeth Byd – Cymru**: Mae CEWC-Cymru yn darparu cymorth ar gyfer addysg ddinasyddiaeth leol, genedlaethol a byd-eang yng Nghymru. Mae digwyddiadau'n cynnwys Pencampwriaethau Dadlau Ysgolion Cymru, ffug-gynadleddau Cenhedloedd Unedig, y Senedd Ieuenctid Ewropeaidd a gweithdai hawliau dynol. Mae hefyd yn darparu deunyddiau cwricwlwm a hyfforddiant.
www.cewc-cymru.org.uk

***Cyngor Chwaraeon Cymru**: Sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu a hybu chwaraeon a ffyrdd o fyw egnïol.
www.cyngor-chwaraeon-cymru.org.uk

**Data Wales**: Ffynhonnell gwybodaeth amrywiol iawn am Gymru. Mae'n disgrifio ei hun fel math o gylchgrawn plwyf modern. Mae'n cynnwys mynegai a chyfleuster chwilio.
www.data-wales.co.uk

***Dolen Cymru**: Mae'n hybu'r cysylltiad rhwng Cymru a Lesotho yn Ne Affrica. Mae ymweliadau cyfnewid ar gyfer athrawon yn nodi ac yn datblygu cyfleoedd i gydweithio. Darperir manylion ymweliadau cyfnewid a deunyddiau addysgu.
www.dolencymru.org

***Draig Ffynci**: Nod Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Blant a Phobl Ifanc yw rhoi cyfle i bobl ifanc hyd at 25 mlwydd oed fynegi eu barn ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw.
www.draigffynci.org

***Fforwm**: Mae'n gyfrifol am ledaenu arfer da ar draws colegau addysg bellach trwy rwydweithiau, cynadleddau a chyhoeddiadau.
www.fforwm.ac.uk

**Global Dimension**: Cronfa ddata yn cynnwys bron i 500 o adnoddau sy'n cynorthwyo darparwyr dysgu i gynnwys elfen fyd-eang wrth ddatblygu agweddau a gwerthoedd.
www.globaldimension.org.uk

***Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu**: Deunyddiau addysgu a dysgu ar-lein o Gymru sy'n darparu rhwydwaith o ddolenni. Mae'r deunyddiau'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc 14 i 19 oed.
www.gcad-cymru.org.uk

**Gwerthfawrogi Amrywiaeth**: Adnodd cynhwysfawr sy'n cynnwys dolenni defnyddiol ynglŷn ag ABCh.
www.esis.org.uk

**iEARN (Rhwydwaith Addysg ac Adnoddau Rhyngwladol)**: Rhwydwaith byd-eang di-elw mwyaf y byd sy'n galluogi athrawon a phobl ifanc i ddefnyddio'r rhyngrwyd a thechnolegau eraill i gydweithio ar brosiectau sy'n cyfoethogi dysgu ac yn gwneud gwahaniaeth yn y byd.
www.iearn.org

***Llyfrgell Genedlaethol Cymru**: Mae'n cynnwys catalogau, adnoddau electronig a rhai taflenni gwaith.
www.llgc.org.uk

**Materion byd-eang**: Cewch weld a lawrlwytho amrywiaeth o adnoddau i helpu addysgu dinasyddiaeth fyd-eang o'r gwefannau canlynol:
www.actionaid.org.uk
www.cafod.org.uk
www.cymorthcristnogol.org.uk
www.oxfam.org.uk
www.savethechildren.org.uk (Rhaglen Cymru)

***Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig**: Fe'i lansiwyd ym 1990 i annog pobl ifanc i gymryd mwy o ddiddordeb yn eu treftadaeth a'u cymunedau. Cynhelir cystadleuaeth flynyddol ar gyfer prosiectau treftadaeth.
www.whsi.org.uk

**Parch at bawb**: Prosiect sy'n adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol gyda'r nod o feithrin cynhwysiant yn y cwricwlwm cenedlaethol.
www.qca.org.uk

***Pecynnau Addysg Uwchradd** ar **Gynulliad Cenedlaethol Cymru** a **Llywodraeth Cynulliad Cymru**: Dosbarthwyd y pecynnau hyn i bob ysgol. Mae manylion ar sut i drefnu ymweliadau â'r Cynulliad Cenedlaethol a'i gyfarfodydd rhanbarthol ar gael o'r adran Parth Dysgu.
www.cynulliadcymru.org

**Theatr yng Nghymru**: Gwefan sy'n cynnwys manylion dros 100 o gwmnïau cynhyrchu yng Nghymru a phob drama/perfformiad dawns newydd ers 1999.
www.theatr-cymru.co.uk

***Urdd Gobaith Cymru**: Manylion digwyddiadau a gweithgareddau ieuenctid ledled Cymru.
www.urdd.org

# Cydnabyddiaethau

Hoffai'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) ddiolch i'r nifer fawr o athrawon, ysgolion, awdurdodau lleol a'r sefydliadau eraill sydd wedi helpu i ddatblygu'r fframwaith hwn.

Yn benodol, mae APADGOS yn ddiolchgar i'r ysgolion canlynol am roi gwybodaeth i'w cynnwys yn yr adran 'Cipliniau a mannau cychwyn':

Coleg Catholig Dewi Sant, Caerdydd
Coleg Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint
Coleg Pen-y-bont, Pen-y-bont ar Ogwr
Ysgol Aberogwr, Pen-y-bont ar Ogwr
Ysgol Arbennig Crown Bridge, Torfaen
Ysgol Arbennig Hŷn Penybryn, Abertawe
Ysgol Brynhyfryd, Sir Ddinbych
Ysgol Dinas Brân, Sir Ddinbych
Ysgol Gyfun Cymer Afan, Castell Nedd a Phort Talbot
Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin, Sir Gâr
Ysgol Gyfun Lewis i Ferched, Caerffili
Ysgol Gyfun Llanbedr-Pont-Steffan, Ceredigion
Ysgol Gyfun Saint Cenydd, Caerffili
Ysgol Gyfun Tregib, Sir Gâr
Ysgol Gymunedol Porth, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Uwchradd Bedwas, Caerffili
Ysgol Uwchradd Bodedern, Ynys Môn
Ysgol Uwchradd Caergybi, Ynys Môn
Ysgol Uwchradd Gatholig Alban Sant, Torfaen
Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt, Powys.

Hoffai APADGOS ddiolch i'r canlynol am roi caniatâd i atgynhyrchu deunydd yn y llyfryn hwn:

Age Concern Cymru and Help the Aged in Wales (tudalen 6)
Casgliadau Amgueddfa ac Oriel Casnewydd (tudalen 20).